



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Ms Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Dyddiad: 3 Rhagfyr 2015
Ein cyf: HVT2437/IG15028/caf
Tudalen: 1 o 3

Annwyl Jocelyn

GWADDOL Y PWYLLGOR CYLLID – PROSES Y GYLLIDEB

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Tachwedd, ac am roi cyfle i ni wneud sylwadau ar drefniadau'r Pwyllgor ar gyfer craffu ar y gyllideb, a'i effaith gyffredinol.

Rydym wedi teimlo bod gennym gysylltiadau da â'r Pwyllgor Cyllid, o ran ei ystyriaeth o'n cyllideb (yr Amcangyfrif) a dogfennau cysylltiedig (Cynllun Ffioedd, Cynllun Blynyddol, Adroddiad Interim, ac Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon). Mae lefel y gwaith craffu a gynigir gan y Pwyllgor wedi bod yn heriol ac yn gadarnhaol i ni, ac mae hyn wedi ein helpu i atgyfnerthu'r ffordd rydym yn gweithredu'n gyffredinol.

Mae'r trefniadau cyswllt â chlercod y Pwyllgor wedi gweithio'n dda iawn ar y cyfan; rydym yn cael digon o rybudd i sicrhau bod dogfennau dwyieithog ar gael mewn pryd i'w gosod, a sicrhau bod tystion ar gael i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor. Rydym yn croesawu'r dull adeiladu hwn o fanteisio i'r eithaf ar y prosesau llywodraethu a chraffu.

Mae'r cwestiynau a godir gan y Pwyllgor yn glir ac yn dangos mewnwelediad fel arfer, ac maent yn helpu i lywio iteriadau o'r Amcangyfrif yn y dyfodol, er mwyn i ni allu rhoi manylion a naratif priodol i gynorthwyo'r Pwyllgor yn ei drafodion. Mae

hyn yn cynnwys cais y Pwyllgor i roi manylion am ein rhaglen gyfalaf tair blynedd yn yr Amcangyfrif, sy'n gyson â'n hymagwedd tymor canolig tuag at gynllunio busnes. Mae ein Cynllun Blynyddol yn cynnwys yr holl wybodaeth gynllunio yn ystod y flwyddyn sy'n ofynnol o dan adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ond mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'n blaenoriaethau tair blynedd, gan amlinellu sut y bwriadwn flaenoriaethu ac atgyfnerthu ein rhaglenni gwaith yn y tymor canolig, a rhoi cyfle i ni gyfleu ein barn yn y tymor hwy ynglŷn â'r ffordd y gellid gwella effeithiolrwydd gwaith archwilio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym wedi croesawu ymateb amserol y Pwyllgor, o ran ceisiadau ysgrifenedig am ragor o wybodaeth, a chyflwyno adroddiad yn sgil ei ystyriaeth o'r dogfennau a restrir uchod, a'r argymhellion clir ac adeiladol a wneir.

Rydym yn cydnabod bod pawb wedi bod drwy gyfnod o ddysgu mewn perthynas â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ac rydym wedi nodi cyfle i wella'r ffordd y cyfathrebir. Ysgrifennwyd atoch ar 19 Mehefin 2015 er mwyn nodi rhai o'r anawsterau a wynebwn wrth gymhwysu'r Ddeddf yn ymarferol, ac ôl treulio cryn amser yn nodi ac yna'n awgrymu ffyrdd ymarferol o fynd i'r afael â'r anawsterau hynny drwy ddiwygiadau i'r Ddeddf. Fe'n hysbyswyd wedyn ar 24 Mehefin 2015 fod y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth wedi ysgrifennu atoch ar 16 Rhagfyr 2014, yn nodi barn glir iawn nad oedd angen newid y Ddeddf. Pe bai'r farn hon wedi cael ei chyfleu'n gynharach byddem wedi osgoi'r ymdrech ddiangen i lunio'r cynigion yn ein llythyr dyddiedig 19 Mehefin.

Gan edrych i'r dyfodol, efallai y bydd sesiwn frifio ar y Ddeddf, yn debyg i'r un a gynhaliwyd ar gyfer y Pwyllgor cyfredol ar 30 Ebrill 2014, yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor Cyllid newydd. Rhoddodd wybodaeth am y ffordd rydym yn gosod ffioedd ac amlinellodd gymhlethdodau a goblygiadau'r ffordd y mae SAC yn cael ei hariannu.

Teimlwn fod lle i wella amseriad yr ystyriaeth o rai o'r dogfennau a restrir uchod. Mae'r Amcangyfrif, y Cynllun Ffioedd a'r Cynllun Blynyddol oll yn ymwneud â'r un cyfnod, ond mae'r amserlen statudol i'w paratoi yn wahanol, ac felly cânt eu hystyried gan y Pwyllgor ar adegau gwahanol. At hynny, mae'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r Adroddiad Interim yn ymwneud â chyfnodau gwahanol, ond cânt eu hystyried gan y Pwyllgor yn yr un cyfarfod. Rydym wedi ceisio cysoni amseriad yr ystyriaeth o'n dogfennau lle y bo modd, gan gynnwys drwy gyflwyno'r Amcangyfrif a'r Cynllun Ffioedd i'r Pwyllgor eu hystyried ar yr un pryd eleni. Fodd bynnag, efallai y byddai rhagor o fanteision pe câi dull gweithredu mwy strategol ei fabwysiadu, lle mae'r Pwyllgor yn ystyried ein cynllun busnes tair blynedd treigl, yn hytrach na'r Cynllun Blynyddol, ochr yn ochr â'n Hamcangyfrif a'n Cynllun Ffioedd bob blwyddyn, ac yna'n ystyried ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar wahân.


Yn gyson â'r sylwadau uchod ynglŷn â'n cynllun busnes tair blynedd treigl, byddai'n fuddiol mabwysiadu dull tymor hwy o gymeradwyo'r gyllideb drwy broses yr Amcangyfrif. Drwy roi mwy o sicrwydd i SAC ac ACC o ran cyllid, gallem yn ein tro roi mwy o sicrwydd i gyrff sy'n talu ffioedd a fyddai'n helpu i wella gwaith rheoli ariannol yn y tymor hwy fel y'i hargymhellwyd mewn nifer o'n hadroddiadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Rydym wedi rhoi rhagor o wybodaeth mewn ymateb i'r cwestiynau penodol a godwyd yn eich arolwg ar-lein.

Yn gywir



HUW VAUGHAN THOMAS
ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU



ISOBEL GARNER
CADEIRYDD, SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU